**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 12 Mawrth 2026**

**Cynhaliwyd yn Y Tabernacl, Machynlleth**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Marcia Sinfield | Aelod anweithredol |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Ian Lucas | Cyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt |
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Jon Travis | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Pennaeth Cydymffurfio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Ceri Taylor | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (eitem 4) |
| Ben George | Pennaeth Trafnidiaeth Ranbarthol (eitemau 7 ac 8) |
| Victoria Madelin | Rheolwr Rhaglen Datblygu Strategol (Canolbarth Cymru) (eitemau 7 ac 8) |
| Rhodri Llwyd | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (Cyngor Sir Ceredigion) (Eitem 8) |

**1. Croeso, ymddiheuriadau, cworwm, datganiadau a chofnodion blaenorol**
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu'r rhai a oedd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Peter Strachan.

Gan fod cworwm, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2026 yn gofnod cywir. Nododd y Bwrdd y log camau gweithredu.

**2. Sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid**
Myfyriodd y Bwrdd ar ddychweliad diweddar ddinasyddion y DU o'r Dwyrain Canol a phwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n gyflym i gydweithwyr sydd â'r grym i gefnogi cwsmeriaid i gwblhau eu taith.

**3. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Lorenzo Visentin â'r cyfarfod gan gyflwyno'r adroddiad ar berfformiad diogelwch. Nododd y Bwrdd berfformiad cadarnhaol ar y cyfan, wrth drafod nifer o faterion allweddol.

Trafododd y Bwrdd anaf i Reolwr Trên. Bydd asesiad meddygol llawn yn cael ei gynnal ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, a bydd yr amgylchiadau'n cael eu hadolygu i ddeall pam y bu hyn ddigwydd. Rhoddodd y Bwrdd eu dymuniadau gorau i'r unigolyn.

Nododd y Bwrdd ddau achos o Basio Signalau Stop (SPaDs): un lle'r oedd trên wedi mynd heibio'r signal gan tua hyd gerbyd oherwydd y tywydd, ac un yn Birmingham New Street lle'r oedd gyrrwr wedi mynd i blatfform anghyfarwydd ac wedi methu signal canolraddol. Er ei fod wedi'i asesu fel risg isel, pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd sylw'r gyrwyr a'i wybodaeth am lwybrau trên. Mae data SPaD ers 2022 yn cael ei adolygu, gan gynnwys adroddiadau allanol ac adolygiadau mewnol, gydag adroddiad i'w gyflwyno i'r Tîm Arwain Gweithredol a chrynodeb i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai. Gofynnodd y Bwrdd bod adroddiadau yn y dyfodol yn rhoi cyd-destun i berfformiad SPaD TrC o'i gymharu â gweithredwyr eraill, gan gynnwys gwaith gyda Network Rail.

Gofynnodd y Bwrdd hefyd am naratif 'felly beth' cliriach ar delemateg bysiau – y brif wybodaeth, y camau sy'n cael eu cymryd, a ffactorau sy'n dylanwadu ar sgoriau – i'w cynnwys mewn sylwebaeth yn y dyfodol [**Cam gweithredu: Lorenzo Visentin**].

Trafododd y Bwrdd cysylltiadau rhwng perfformiad diogelwch a hyfforddiant a chymhwysedd craidd, a sut y ceir sicrwydd mewn trefniadau cymhwysedd drwy'r Pwyllgor Pobl a goruchwyliaeth arall ar lefel sefydliadol a lleol. Trafododd y Bwrdd hefyd ei gyfrifoldebau diogelwch sy'n esblygu drwy'r amser, yn enwedig o ran rheoli seilwaith a bysiau.

Mewn ymateb i gwestiynau ar ddangosyddion ymosod, nodwyd bod y ffigurau'n ymwneud â'r cyfnod adrodd ac y gall amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar dueddiadau, gan gynnwys y defnydd o gamerâu corff a lefel yr adrodd gan gydweithwyr a chwsmeriaid.

Nododd y Bwrdd fod rhai dangosyddion coch yn adlewyrchu trothwyon deuaidd (uwchben/islaw'r targed) heb unrhyw oddefiant ambr, a bod y perfformiad yn agos at y trothwy Cyfartaledd Blynyddol Symudol yn y meysydd hyn.

*Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod*.

**4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

O ystyried lleoliad cyfarfod y Bwrdd, soniodd y Prif Swyddog Gweithredol am gysylltedd trafnidiaeth yng Nghymru, gan nodi cyflymder a chwmpas cymharol teithiau ar y ffyrdd o'i gymharu â'r rheilffyrdd mewn rhai ardaloedd gwledig, y rhwydwaith ffyrdd, ac absenoldeb rhwydwaith bysiau cenedlaethol. Cytunodd y Bwrdd y dylid ailedrych ar y materion hyn mewn sesiwn ar gynllunio trafnidiaeth ranbarthol yn y cyfarfod nesaf. Nododd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd y paratoadau ar gyfer sefydlu gwasanaeth bws rhwng y gogledd a'r de. Mewn trafodaeth, bu'r Bwrdd ystyried lleoliad trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw o fewn y strategaeth masnachfreinio bysiau, a hefyd ystyried y cyfle i sbarduno integreiddio a newid diwylliannol tuag at drafnidiaeth gyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau gwell ac amlach.

Adroddodd y Prif Swyddog Gweithredol fod boddhad cwsmeriaid, canlyniadau Trustpilot, perfformiad a diogelwch yn parhau i gael eu canolbwyntio arnynt. Nodwyd bod y cynnydd ar gontract Cymru a'r Gororau yn

gadarnhaol, gyda Network Rail yn wynebu her gynyddol i sicrhau bod seilwaith yn cefnogi darparu gwasanaeth cryf.

O ran masnachfreinio bysiau, nododd y Prif Swyddog Gweithredol fod Cyfarwyddwr Gweithredol newydd Gweithrediadau Bysiau wedi gwreiddio'n gyflym a'i fod yn darparu her a syniadau adeiladol i helpu TrC i gyflawni'r rhaglen yn effeithiol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am Fwrdd Rheilffyrdd Cymru, gan nodi ymdrechion i sicrhau bod ymrwymiadau cyllido hyd yma'n cael eu cyflawni ac i gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol fel rhan o adolygiadau gwariant diweddarach. Trafododd y Prif Swyddog Gweithredol ymgysylltiad Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth ar flaenoriaethau Cymru, gan nodi bod y cyfarfod diweddar wedi rhoi trafodaeth agored ynghylch sut mae angen i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd yn wahanol yn y dyfodol, gan adlewyrchu bwriadau diwygio'r rheilffyrdd o dan GBR. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol y bydd Network Rail yn cael ei wahodd i fod yn rhan o Bwyllgor Seilwaith y weithrediaeth.

O ran diwygio'r rheilffyrdd a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, dywedwyd wrth y Bwrdd bod y ddogfen wedi cael ei hadolygu llinell wrth linell, bod diwygiadau wedi cael eu cytuno, a bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bellach mewn sefyllfa resymol. Croesawyd y gwaith gorffenedig gan y Bwrdd fel sylfaen gadarn ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd gwell i bobl a busnesau Cymru, gan gynnwys gwasanaethau trawsffiniol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unedau Class 197 newydd: mae pob un wedi cael ei dderbyn ar wahân i un. [redacted]

O ran cyflwyno Class 398 i'r gwasanaeth, rhoddwyd gwybod bod yna gynnydd da gyda materion yn cael eu nodi a'u cau yn wythnosol.

[redacted]

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith i sicrhau bod masnachfreinio bysiau yn cyflawni gwelliannau amlwg i bob cymuned ledled Cymru. Mewn perthynas â phrynu depos yn Ne-orllewin Cymru, nodwyd y cymhlethdodau o ymgymryd â gweithgarwch nad oedd wedi'i wneud o'r blaen o fewn TrC [redacted] Nododd y Bwrdd dwf parhaus TrC i feysydd newydd a thrafododd yr angen i sicrhau bod gan y sefydliad y gallu a'r capasiti sydd eu hangen dros y tair i bum mlynedd nesaf. Gofynnodd y Bwrdd am asesiad o'r galluoedd, y bylchau a'r cynlluniau bydd eu hangen yn y dyfodol i fynd i'r afael â nhw [**Cam gweithredu: Rhian Langham, James Price ac Elle Elliott**].

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Cadeirydd, dyddiedig 27 Tachwedd 2025, ar y prif dybiaethau a phenderfyniadau polisi bysiau sydd eu hangen, gan nodi'r risg y gallai cynnydd arafu yn y cyfnod cyn yr etholiad, gan bwysleisio bod rhai eitemau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith, ac y dylid cynnal momentwm drwy ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth

Cymru. Cytunodd y Bwrdd fod angen cysoni rhaglen TrC â'r amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth a chael diweddariadau rheolaidd. Cytunodd y Bwrdd hefyd fod angen rhagor o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch Erthyglau Cymdeithasu TrC a materion a gedwir yn ôl sy'n ymwneud â phrynu eiddo a thir.

O ran cyllid, nododd y Bwrdd fod sefyllfa 2025/26 wedi dod i ben a bod bylchau cyllido ar gyfer 2026/27 yn cael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru, gyda llythyr cyllido diwygiedig i'w gyhoeddi. Nododd y Bwrdd bod gwaith wedi'i wneud i gaffael bysiau ar gyfer gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de, a bod hyn wedi'i gefnogi gan asesiad swyddog cyfrifyddu. [redacted] Mae rhewi prisiau tocynnau ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi cael ei ymgorffori yng nghyllideb 2026/27. Croesawodd y Bwrdd dwf refeniw dros y flwyddyn, gan gynnwys newidiadau sylweddol i wasanaethau, er enghraifft, ail-lunio amserlen Gogledd Cymru, gwelliannau i reilffordd Rhymni, a'r adferiad llawn o wasanaethau Bae Caerdydd. Nododd y Bwrdd fod twf yn nifer y teithwyr a thrafododd yr uchelgais tymor hwy i gynyddu ei gyfran o'r farchnad.

**5. Cyllido amlflwyddyn**
Nododd y Bwrdd y cynllun ariannol tymor canolig pum mlynedd cryno sy'n cyd-fynd â'r fersiwn ddiweddaraf o gyllideb 2026/27. Nododd y Bwrdd mai pwrpas y cynllun yw cefnogi cynllunio tymor hir mwy effeithiol a rhoi safbwynt cyfunol i Lywodraeth Cymru i lywio fforddiadwyedd, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf.

Trafododd y Bwrdd sensitifrwyddau allweddol, gan gynnwys pwysau chwyddiant ac effeithiau ar y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o'r sefyllfa yn y Dwyrain Canol, tybiaethau o ran refeniw teithwyr, costau staff sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Manwerthu, a thybiaethau yn y cynllun sy'n ymwneud â masnachfreinio bysiau, cynlluniau seilwaith yn y dyfodol a'u costau gweithredu cysylltiedig. Roedd y risgiau hyn yn cael eu monitro a'u rheoli'n rhagweithiol i'r graddau mwyaf posibl gan fod rhai yn dal y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol TrC.

Cytunodd y Bwrdd y dylai'r cynllun gysylltu'n glir ag amcanion strategol, cael ei gyfleu'n fewnol er mwyn i ddeiliaid cyllidebau allu adolygu a bod yn berchen ar eu risgiau, eu cyfleoedd a'u rhagdybiaethau eu hunain, a, lle bo'n bosibl, disgrifio goblygiadau y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd. Cytunodd y Bwrdd hefyd y dylid paratoi crynodeb syml i gefnogi trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru fel sail ar gyfer trafodaeth gyda Llywodraeth newydd Cymru ar ôl etholiadau mis Mai.

**6. Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn rhanbarth Canolbarth Cymru**
*Ymunodd Victoria Madelin a Ben George â'r cyfarfod.* Cafodd y Bwrdd ei friffio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ardaloedd awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys, roedd hyn yn cynnwys y cynnydd gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y newid i fasnachfreinio bysiau, y goblygiadau i'r gwasanaeth bysiau moethus arfaethedig rhwng y gogledd a'r de, a materion sy'n ymwneud â gorsaf Machynlleth.

**7. Ymgysylltu â rhanddeiliaid y Cyd-bwyllgor Corfforedig**
Ymunodd Rhodri Llwyd â'r cyfarfod ac amlinellodd faterion allweddol yn y rhanbarth, gan gynnwys amlder gwasanaethau rheilffyrdd i Aberystwyth ac effaith tarfiadau, yr heriau o ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, a'r cyfleoedd sy'n deillio o fasnachfreinio bysiau. Nododd y Bwrdd fod gwasanaethau Traws yn gweithredu sawl llwybr prifwythiennol a bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau'r cydgysylltiad mwyaf posibl â llwybrau lleol sy'n cael eu gweithredu gan fentrau bach a chanolig. Un mater penodol y tynnwyd sylw ato oedd diffyg gwasanaethau bysiau lleol gyda'r nos ac ar benwythnosau, efallai y gallai masnachfreinio ddechrau mynd

i’r afael â hyn. Roedd y drafodaeth hefyd yn edrych ar y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, amlder gwasanaethau rheilffyrdd, a manteision rhwydwaith trafnidiaeth integredig i ehangu mynediad at wasanaethau, gan gynnwys yr angen i wella seilwaith ategol. Nododd y Bwrdd, er bod tocynnau Traws yn cael eu hysbysebu yng ngorsaf drenau Machynlleth, dim ond ar gyfer y gwasanaeth T1 y gellir prynu tocynnau yn yr orsaf ar hyn o bryd [**Cam gweithredu Lee Robinson**].

Myfyriodd y Bwrdd ar bwysigrwydd cydlynu i sicrhau bod lleisiau cymunedau’n cael eu cynrychioli, ac ar yr angen i’r Bwrdd a’r Tîm Arwain Gweithredol ddeall y rhwystrau y mae cydweithwyr yn eu hwynebu a allai effeithio ar ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid, gan gynnwys straeon cwsmeriaid sy’n atal cydweithwyr rhag gwneud y peth iawn. Cytunwyd y byddai'r Weithrediaeth yn gwneud y canlynol: (1) ystyried sut i wrando’n fwy effeithiol a gweithredu’n gyflymach i wella gwasanaethau ac annog mwy o gydweithwyr i wneud hynny; a (2) datblygu’r meddylfryd i alluogi darparu cynhyrchion sylfaenol hyfyw yn gyflymach, yn enwedig yn y maes TG er mwyn gwella profiad cwsmeriaid. Cytunodd y Bwrdd hefyd fod angen sgyrsiau pellach ynghylch buddsoddi yn ystod y cyfnod rheoli nesaf ar gyfer gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol [**Cam gweithredu James Price**].

*Gadawodd Victoria Madelin a Ben George y cyfarfod.*

**8. Diweddariadau llywodraethu**

Nododd y Bwrdd ddiweddariad gan Fwrdd Llywio TrC, a oedd yn canolbwyntio ar y traciwr ar gyfer Cymeradwyaeth Gweinidogol, trafodaethau undebau llafur bysiau, iawndal penodedig CAF, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygio’r rheilffyrdd, a chyllid.

Nododd y Bwrdd ddiweddariad gan y Panel Cynghori, a fu’n ystyried llais y cwsmer yn ddiweddar. Myfyriodd y Bwrdd ar rôl a phwrpas y panel a gofynnodd am ragor o eglurder [**Cam gweithredu: Lewis Brencher**]. Nododd y Bwrdd hefyd yr angen i’r panel ddarparu mwy o her ac i allbynnau fwydo i’r Pwyllgor Profiad a Thwf Cwsmeriaid [**Cam gweithredu: Vinay Parmar / Lewis Brencher**].

Nododd y Bwrdd ddiweddariad gan Fwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf, a ganolbwyntiodd ar ddiogelwch, perfformiad, cyllid, her ‘cwpan T’ Rhwydwaith T, y strategaeth perfformiad ar gyfer Rheilffyrdd TrC (gan gynnwys perfformiad seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd), gweithrediadau ar Gymru a’r Gororau a Llinellau Craidd y Cymoedd, cyfraddau defnyddio gyrwyr, a llywodraethu perthynas Network Rail.

Trafododd y Bwrdd y ‘Pullman Turnaround Project’ a nododd y gallai papur penderfyniad pellach gael ei gyflwyno o fewn yr wythnosau nesaf. [redacted]

Nododd y Bwrdd ddiweddariad gan Ffeibr, gan gynnwys y biblinell werthiant a pherfformiad cyffredinol.

**9. Cyfnod cyn yr etholiad**

Nododd y Bwrdd y canllawiau cyn-etholiadol a oedd wedi cael eu dosbarthu. Cadarnhaodd Ian Lucas nad oedd yn ymgyrchu.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a chaeodd y cyfarfod.